

# Adroddiad Arolygu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Adran Delweddu Diagnostig, Ysbyty  
Werndale, Caerfyrddin

Dyddiad yr arolygiad: 28 a 29 Mehefin 2022

Dyddiad cyhoeddi: 30 Medi 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan fyddant wedi'u cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein nod

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
  - Ansawdd profiad y claf
  - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
  - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Adran Delweddu Diagnostig yn Ysbyty Werndale, Caerfyrddin, ar 28 a 29 Mehefin 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC ac uwch-swyddog diagnostig clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, a gyflawnodd sywddogaeth gynghori. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y staff yn ymroddedig i roi profiad da i gleifion wrth ymweld â'r adran delweddu diagnostig. Cadarnhawyd hyn gan gleifion a gyflwynodd sylwadau i AGIC.

Roedd trefniadau addas ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a gwelsom staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd.

Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion am sut i roi adborth a sut i fynegi pryder am eu gofal.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd sylwadau a dderbyniwyd gan gleifion yn cadarnhau eu bod yn fodlon iawn ar eu profiad o ymweld â'r adran
- Roedd y staff yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion
- Roedd system dda ar waith i rannu adborth cleifion â staff

### Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom gydymffurfedd da â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 ac roedd trefniadau priodol ar waith i hyrwyddo diogelwch a llesiant cleifion sy'n cael triniaethau pelydr-X.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i hyrwyddo atal a rheoli heintiau a dihalogi yn effeithiol yn yr adran.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae rhai o weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr yn gofyn am ragor o fanylion i adlewyrchu canllawiau cenedlaethol a rhoi cymorth i staff trwy ddarparu gweithdrefnau clir i'w dilyn
- Dylai'r cyflogwr wneud trefniadau addas i gadarnhau gydag unigolion sydd â hawl i weithredu fel atgyfeirwyr eu bod yn gallu cyrchu canllawiau atgyfeirio

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd ystod o archwiliadau clinigol ac o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) wedi'u cynnal ac roedd systemau da ar waith i gynnal archwiliadau dilynol a rhannu canfyddiadau â staff perthnasol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Cyfarwyddwr yr ysbyty oedd y cyflogwr dynodedig o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a disgrifiwyd a dangoswyd llinellau adrodd a chyfrifoldebau clir o dan y rheoliadau hyn.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig addas ar waith i nodi unigolion i weithredu fel deiliaid dyletswydd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ac i ddadansoddi, cofnodi ac adrodd am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol.

Roedd sylwadau a wnaed gan staff yn cadarnhau bod y sefydliad yn annog gwaith tîm a'i fod yn gefnogol. Gwnaeth y staff sylwadau cadarnhaol hefyd am eu rheolwr llinell uniongyrchol ac uwch-reolwyr.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai llythyrau hawl a anfonir at feddygon ymgynghorol orthopedig gyfeirio at yr holl rolau deiliad dyletswydd y gallant eu cyflawni
- Dylid gwneud trefniadau i wneud staff yn ymwybodol o radiolegwyr ar alwad a all roi cyngor 'y tu allan i oriau'

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd system dda ar waith i rannu'r hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau yn ymwneud â chysylltiadau meddygol
- Gwelsom gydymffurfedd da o ran hyfforddiant staff mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a hyfforddiant gorfodol arall
- Gwnaeth staff sylwadau cadarnhaol ynghylch y camau a gymerwyd gan y sefydliad ar iechyd a llesiant

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a ganfuom

### Ansawdd profiad y claf

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofawyr. Cwblhawyd cyfanswm o 22 holiadur. Nid atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau.

Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Roeddwn i’n teimlo’n gyfforddus iawn ac yn dawel fy meddwl gyda’r staff a’r holl brofiad a gefais yn yr adran ddelweddu.”*

*“Fe wnaeth staff i mi deimlo wedi ymlacio ac yn rhan o’r harchwiliad ac roeddwn i’n teimlo fy mod mewn dwylo diogel.”*

*“Roedd yr offer pelydr-X ... yn edrych yn newydd, a roddodd hyder i mi yn y gwasanaeth yn Werndale.”*

*“Roedd y staff yn barod iawn i helpu. Gwasanaeth o’r radd flaenaf.”*

*“Roedd y radiograffydd a’r cynorthwydd yn gymwynasgar, yn broffesiynol ac yn gyfeillgar.”*

*“... roedd yn brofiad ardderchog - roeddent mor ofalgar ac roeddent yn edrych ar fy ôl mor dda!”*

#### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth wedi’i harddangos yn glir a oedd yn cynghori cleifion i hysbysu’r staff os oeddent yn feichiog neu’n bwydo ar y fron.

Nid oedd unrhyw ddeunydd hybu iechyd arall wedi’i arddangos yn y man aros ac esboniodd y staff ei fod wedi’i symud mewn ymateb i COVID-19. Fodd bynnag, cadarnhaodd uwch aelodau o staff y byddai cleifion sy’n mynychu’r ysbyty yn cael cyngor hybu iechyd perthnasol yn ystod eu hymgyngoriadau â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

#### Urddas a pharch

Gwelsom fod y staff yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a oedd yn ymweld â’r adran.



Gwelsom hefyd fod y staff yn gyfeillgar, ond yn broffesiynol, ac yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd.

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch a bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd. Roeddent yn cytuno hefyd eu bod yn gallu siarad â staff am eu triniaeth heb i gleifion eraill eu clywed a gwrandawodd y staff arnynt ac ateb eu cwestiynau.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron ar-lein i gael adborth a safbwyntiau gan staff sy'n gweithio yn yr adran. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur.

Roedd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal a bod cleifion yn cael eu cynnwys yn eu gofal. Cytunodd yr holl staff eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu darparu i'r cleifion.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad**

Roedd gwybodaeth i gleifion am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chael pelydr-X ar gael yn rhwydd yn yr adran. Cytunodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision y driniaeth.

Cytunodd pob un o'r 21 o gleifion a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC fod y staff wedi egluro'r hyn yr oeddent yn ei wneud.

Roedd pob un o'r 20 o gleifion a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt eu hunain yn dilyn eu triniaeth.

Roedd 15 o'r 17 o gleifion a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig ynghylch pwy i gysylltu ag ef i gael cyngor am unrhyw 'ôl-effeithiau' o'u triniaeth ac roedd dau yn anghytuno.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Gwelsom arwyddion dwyieithog yn yr adran a gwybodaeth ddwyieithog wedi'i harddangos yn hysbysu cleifion i hysbysu'r staff os oeddent yn feichiog neu'n bwydo ar y fron a gwybodaeth yn disgrifio pelydr-X.

Cytunodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn gallu dod o hyd i'r adran yn hawdd.

Dywedodd pum claf a gwblhaodd holiadur AGIC mai Cymraeg yw eu dewis iaith. Roedd y pump yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ysbyty. Dywedodd dau eu bod yn cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg drwy gydol eu taith fel claf, dywedodd dau eu bod weithiau, a dywedodd un nad oedd wedi cael y cyfle.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Cytunodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag y dymunant mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth.

Gwnaethom nodi bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon wrth fynychu'r adran. Disgrifiodd y staff drefniadau addas ar gyfer hysbysu cleifion am oedi.

Roedd 21 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno ei bod yn hawdd cael apwyntiad ac roedd un yn anghytuno.

Roedd 20 o gleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn cael gwybod yn yr adran pa mor hir y byddent yn debygol o orfod aros ac roedd dau yn anghytuno.

Dywedodd 19 o'r 22 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi aros llai na 15 munud i gael eu triniaeth. O'r lleill, roedd un wedi aros rhwng 15 a 30 munud ac roedd dau wedi aros am fwy na 30 munud.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Darparodd y staff y siaradwyd â nhw enghreifftiau o addasiadau rhesymol a wnaed fel bod cleifion yn gallu cael mynediad i'r adran i gael pelydr-X.

Ni nododd yr un o'r 21 o gleifion a atebodd y cwestiwn eu bod wedi wynebu gwahaniaethu wrth gyrchu neu ddefnyddio'r gwasanaeth iechyd.

### **Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth**

Disgrifiodd uwch aelodau o staff fod trefniadau addas ar waith i gleifion roi adborth neu fynegi pryder am eu gofal.

Gwelsom fod ffurflenni adborth cleifion ar gael ym mhrif ddesg y dderbynfa ac roedd poster wedi'i arddangos yn yr ystafell aros yn hysbysu cleifion am weithdrefn gwyno'r ysbyty.

Cadarnhaodd y staff y siaradwyd â nhw fod adborth cleifion wedi'i rannu â nhw ynghyd ag unrhyw ddysgu a nodwyd.

Cadarnhaodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod adborth profiad cleifion yn cael ei gasglu o fewn yr adran a'i fod yn cael ei rannu â nhw'n rheolaidd ac y gweithredir arno. Cytunodd yr holl staff hefyd fod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godwyd gan gleifion.

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Gofynnodd AGIC i uwch aelodau o staff yn yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu cyn ein harolygiad. Roedd hyn er mwyn rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn perthynas â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon a'r dogfennau ategol a gyflwynwyd i lywio'r dull arolygu.

Cafodd y ffurflen hunanasesu ei dychwelyd i AGIC o fewn yr amserlen y cytunwyd arni ac roedd yn gynhwysfawr. Pan oedd angen gwybodaeth neu eglurhad ychwanegol arnom mewn perthynas â'r ymatebion yn yr hunanasesiad, cafodd ei roi gan uwch aelodau o staff yn gyflym.

### Dyletswyddau'r cyflogwr

#### *Adnabod cleifion*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas i adnabod yn gywir yr unigolyn a oedd yn mynd i gael cysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio. Gwelsom ei bod yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn pan nad oedd cleifion yn gallu cadarnhau eu hunaniaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig, megis cleifion sy'n anymwybodol.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y staff yn cadarnhau hunaniaeth y cleifion yn gywir yn unol â gweithdrefn y cyflogwr. Roedd gan y staff y siaradwyd â nhw ddealltwriaeth glir o'r weithdrefn adnabod cleifion.

Cytunodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y gofynnwyd iddynt gadarnhau eu manylion personol.

#### *Unigolion a allai feichiogi (ymholiadau yn ymwneud â beichiogrwydd)*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas ar gyfer gwneud ymholiadau i unigolion o oedran cael plant. Gwelsom fod hon yn adlewyrchu amrywiaeth y sbectrwm rhywedd yn y boblogaeth wrth wneud ymholiadau beichiogrwydd gan ei bod yn ofynnol i staff ofyn i bob unigolyn o fewn y grŵp oedran penodedig.

Gwelsom dystiolaeth ysgrifenedig i ddangos bod y staff wedi gwneud ymholiadau yn unol â gweithdrefn y cyflogwr.

#### *Achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol*

Cadarnhaodd uwch aelodau o staff fod cysylltiadau delweddu anfeddygol yn cael eu perfformio yn yr adran.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer y mathau hyn o gysylltiadau.

### *Canllawiau atgyfeirio*

Gwnaethom gadarnhau bod y cyflogwr wedi sefydlu canllawiau atgyfeirio ar gyfer yr ystod o gysylltiadau i'w cyflawni yn yr adran.

Roedd enw a rhif fersiwn y canllawiau hyn ar gael i atgyfeirwyr trwy lythyr hawl a roddwyd gan y cyflogwr. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd y byddai'r holl atgyfeirwyr yn gallu cyrchu'r canllawiau gan fod hyn yn dibynnu ar unigolion naill ai'n prynu'r canllawiau neu'n cael tanysgrifiad i'w cyrchu.

### **Dyletswyddau'r ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr**

Roedd y staff adrannol y siaradwyd â nhw yn dangos dealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Disgrifiodd uwch aelodau o staff drefniadau priodol i archwilio cydymffurfedd â gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr gan y rhai sydd â hawl fel atgyfeiriwr, ymarferydd a gweithredwr.

### **Cyfiawnhad ar gyfer achosion unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd**

Darparodd uwch aelodau o staff brotocolau ysgrifenedig ar gyfer archwiliadau pelydr-X a gyflawnir yn yr adran. Roedd y protocolau ysgrifenedig hefyd yn cynnwys canllawiau awdurdodi ac yn nodi pwy oedd yr ymarferydd ar gyfer cysylltiadau a awdurdodir gan y gweithredwr i'r canllawiau hyn.

Nodwyd gennym fod y ddogfen yn cyfeirio'n anghywir at dermau 'cyfiawnhad' ac 'awdurdodiad' a gwnaethom dynnu sylw at y ffaith bod y radiograffwyr a oedd yn defnyddio'r canllawiau yn gweithredu fel gweithredwyr nid fel ymarferwyr. Gwnaethom drafod hyn ag uwch aelodau o staff, a gymerodd gamau ar unwaith i ddiwygio'r ddogfen.

Archwiliwyd y ffurflenni atgyfeirio ar gyfer sampl ar hap o wyth claf. Gwelsom fod gweithredwyr wedi cymeradwyo'r ffurflen â llythrennau blaen yr ymarferydd i ddangos bod cyfiawnhad dros y cysylltiad meddygol wedi'i gyflawni. Fodd bynnag, argymhellwyd i uwch aelodau o staff y dylai gweithredwyr, pan fyddant yn perfformio cysylltiadau yn erbyn y canllawiau awdurdodi, gymeradwyo'r ffurflen gan ddefnyddio eu blaenlythrennau, fel y gellir eu hadnabod ac fel y gallant ddangos eu bod yn awdurdodi'r cysylltiad ar ôl cadarnhau bod y canllawiau wedi'u bodloni.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig i sefydlu cyfyngiadau dos a chanllawiau ar gyfer amlygu gofalwyr a chysurwyr.

Roedd gweithdrefn weithredu safonol ar waith hefyd, a oedd yn darparu proses leol i staff ei dilyn ar gyfer rheoli gofalwyr a chysurwyr, a oedd yn gweithredu fel canllawiau awdurdodi. Fodd bynnag, dylai'r ddogfen hon gael ei hadolygu a'i diwygio i wella eglurder ynghylch pwy yw'r ymarferydd ar gyfer cysylltiadau gofalwyr a chysurwyr a darparu mwy o fanylion yn y canllawiau awdurdodi.

### **Optimeiddio**

Disgrifiodd a dangosodd uwch aelodau o staff drefniadau addas ar gyfer optimeiddio cysylltiadau meddygol a gyflawnir yn yr adran.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer darparu gwybodaeth ddigonol yn ymwneud â'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dos ymbelydredd o'r cysylltiad i'r unigolyn a fydd yn destun y cysylltiad neu ei gynrychiolydd. Fodd bynnag, dylid cynnwys rhagor o fanylion am sut y bydd yr wybodaeth yn cael ei darparu yn y weithdrefn, gan gynnwys, pan nad yw cyfathrebu ar lafar yn bosibl, pwy fydd yn darparu'r wybodaeth, sut y gall staff gael mynediad at gymorth pellach, a'r hyfforddiant staff sydd ei angen.

### *Lefelau cyfeirio diagnostig*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer defnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig a sefydlwyd ar gyfer archwiliadau pelydr-X a gyflawnir yn yr adran.

Er y crybwyllwyd adolygiad blynyddol o ddosau lleol yn y weithdrefn ysgrifenedig, efallai y bydd radiograffwyr yn nodi materion yn eu hymarfer o ddydd i ddydd. Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw arferion da a dangoswyd dealltwriaeth dda o lefelau cyfeirio diagnostig. Roedd radiograffwyr yn adolygu lefelau cyfeirio diagnostig ym mhob cysylltiad ac yn gwybod beth i'w wneud os oeddent yn teimlo eu bod yn mynd y tu hwnt i'r lefelau cyfeirio diagnostig yn gyson ar gyfer cleifion o faint safonol. Dylid cynnwys y manylion hyn yn y weithdrefn ysgrifenedig neu mewn gweithdrefn weithredu safonol gysylltiedig.

Gwelsom fod y lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol a lleol wedi'u harddangos yn glir yn yr adran i'r staff eu gweld. Disgrifiodd y staff y siaradwyd â nhw y broses ar gyfer gwirio a chofnodi'r rhain.

### *Pediatreg*

Cadarnhaodd uwch aelodau o staff nad oedd cysylltiadau meddygol yn cael eu perfformio ar blant yn yr adran.

### *Gwerthusiad clinigol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer cynnal a chofnodi gwerthusiad ar gyfer pob cysylltiad a gyflawnir yn yr adran. Fodd bynnag, dylid cynnwys manylion y broses i'w dilyn ar gyfer canfyddiadau annisgwyl yn y weithdrefn ysgrifenedig.

### **Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr**

Darparodd uwch aelodau o staff restr cyfarpar a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Gwelsom dystiolaeth ysgrifenedig i ddangos bod rhaglen sicrhau ansawdd addas ar waith o ran y cyfarpar delweddu diagnostig a ddefnyddir yn yr adran.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig yn hyn o beth hefyd.

## **Gofal diogel**

### **Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i hybu iechyd a diogelwch cleifion sy'n ymweld â'r adran a'r staff sy'n gweithio yno.

Roedd arwyddion clir yn cael eu harddangos i rybuddio cleifion, ymwelwyr a staff o'r manau lle'r oedd yr offer pelydr-X. Roedd mynediad i'r manau hyn hefyd yn cael ei reoli i atal mynediad anawdurdodedig pan oedd offer yn cael eu defnyddio.

Gwelsom fod yr adran wedi'i lleoli ar y llawr daear, sy'n golygu ei bod yn hawdd ei chyrraedd i gleifion, gan gynnwys cleifion ag anawsterau symudedd.

Cytunodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar ymdrechion y sefydliad i gadw cleifion a staff yn ddiogel.

### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i hybu atal a rheoli heintiau yn effeithiol.

Roedd yr holl fannau a archwiliwyd gennym i'w gweld yn lân ac yn daclus ac roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael yn hawdd i'r staff ei ddefnyddio. Roedd cyfleusterau ymolchi a sychu dwylo addas a hylif diheintio dwylo hefyd ar gael yn rhwydd yn yr adran.

Dyweddodd pob un o'r 21 o gleifion a atebodd y cwestiwn hwn yn holiadur AGIC fod yr adran 'yn lân iawn'.

Cytunodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith.

Roedd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod ganddynt fynediad at ddigon o gyfarpar diogelu personol ac roedd trefniadau dihalogi ar waith ar gyfer offer a manau perthnasol.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed**

Disgrifiodd uwch aelodau o staff broses addas ar gyfer ymateb i bryderon diogelu.

Roedd y staff y siaradwyd â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran adrodd am bryderon diogelu ac yn disgrifio'r broses y byddent yn ei dilyn. Gwelsom fod siart lif ar gael yn hawdd i'r staff gyfeirio ati, a oedd yn rhoi trosolwg o'r broses i'w dilyn.

Gwnaethom archwilio gwybodaeth hyfforddi ar gyfer sampl o bum aelod o staff a gwelsom fod yr holl staff wedi mynychu hyfforddiant diogelu ar lefel a oedd yn briodol i'w rôl.

## **Gofal effeithiol**

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

#### *Archwiliad clinigol*

Darparodd uwch aelodau o staff enghreifftiau o archwiliadau clinigol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom fod ystod o weithgareddau archwilio wedi'u cynnal a bod systemau da ar waith i gynnal archwiliadau dilynol a rhannu canfyddiadau â'r staff perthnasol.

#### *Cyngor arbenigol*

Gwnaethom gadarnhau bod y cyflogwr wedi penodi arbenigwr ffiseg feddygol a rhoi'r hawl iddo roi cyngor ar gysylltiadau meddygol a chydymffurfedd â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Disgrifiodd a dangosodd uwch aelodau o staff drefniadau addas i'r arbenigwr ffiseg feddygol fod yn rhan o gysylltiadau meddygol a gyflawnir yn yr adran a rhoi cyngor arnynt.

#### *Ymchwil feddygol*

Cadarnhaodd uwch aelodau o staff nad oedd ymchwil yn ymwneud â chysylltiadau meddygol yn cael ei chynnal yn yr adran.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas ag ymchwil yn ymwneud â chysylltiadau meddygol. Fodd bynnag, gan nad yw hyn yn berthnasol i Ysbyty Werndale, dylid nodi hyn yn glir.

## **Rheoli cofnodion**

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli cofnodion a ddefnyddir yn yr adran.



# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron ar-lein i gael adborth a safbwyntiau gan staff sy'n gweithio yn yr adran. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur.

Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

- *“Dwi wedi gweithio mewn ychydig o adrannau radioleg gwahanol a dwi erioed wedi gweld staff yn gweithio mor galed i wneud profiad y claf y gorau y gallant. Maen nhw wir yn mynd gam ymhellach a thu hwnt.”*
- *“Hapus gyda phopeth.”*
- *“Dwi'n hynod hapus yn fy ngweithle ac, er bod gennym adegau a dyddiau prysur a llawn straen, dwi bob amser yn cael fy nghefnogi gan gydweithwyr a rheolwyr.”*

Pan ofynnwyd pa welliannau y gellid eu gwneud, roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

- *“Ystafell newid i gleifion yn yr ystafell pelydr-X.”*
- *“Popeth yn foddhaol.”*
- *“Trwy fuddsoddi ymhellach yn y gofod fel bod mwy o ystafelloedd a lle i gwblhau sganiau fel rhai uwchsain. Hefyd mwy o staff ac offer i gwblhau mwy o sganiau a thriniaethau a fyddai'n rhoi hwb i'r ysbyty.”*

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Cyfarwyddwr yr ysbyty oedd y cyflogwr dynodedig o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Cyflwynodd uwch aelodau o staff fanylion y strwythur sefydliadol a disgrifiwyd a dangoswyd llinellau adrodd a chyfrifoldebau clir o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

## Dyletswyddau'r cyflogwr

### *Hawlogaeth*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig addas i nodi unigolion â hawl i weithredu fel ymarferydd neu weithredwr neu atgyfeiriwr.

Cadarnhaodd uwch aelodau o staff fod y deiliaid dyletswydd uchod yn cael llythyr hawlogaeth yn cadarnhau eu hawlogaeth a chwmpas eu hymarfer.

Ar gyfer llawfeddygon orthopedig yn gweithio yn yr ysbyty, nid oedd y llythyr yn cyfeirio at yr holl rolau deiliad dyletswydd y gallent eu cyflawni, megis atgyfeiriwr, ymarferydd (wrth gyfiawnhau cysylltiadau ar gyfer llawdriniaethau gan ddefnyddio offer fflworosgopeg), a gweithredwr ar gyfer y gwerthusiad clinigol a gofnodwyd ar ôl y driniaeth.

#### *Gweithdrefnau a phrotocolau*

Gwnaethom gadarnhau bod gan y cyflogwr weithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Disgrifiodd uwch aelodau o staff y broses ar gyfer adolygu a diwygio gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig y cyflogwr. Disgrifiwyd system hefyd i staff gael mynediad at y gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig ac i roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau a wneir.

Roedd y canlynol yn amlwg o'r dogfennau a ddarparwyd:

- defnyddiwyd templed safonol ar gyfer gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig
- roedd proses awdurdodi ar waith
- mae unigolyn penodedig yn gyfrifol am adolygu'r gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig

Er bod gweithdrefn cyflogwr ar gyfer sicrhau ansawdd gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig ar waith, dylai hon gynnwys mwy o fanylion am y broses fel y disgrifir uchod.

#### *Achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad sylweddol ag ymbelydredd*

Disgrifiodd uwch aelodau o staff drefniadau addas ar gyfer dadansoddi, cofnodi ac adrodd am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol. Gwelsom fod canllawiau ar gael yn rhwydd yn yr adran i staff pe baent yn amau bod cysylltiad damweiniol neu anfwriadol wedi digwydd. Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig yn hyn o beth hefyd.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau gyda staff adrannol a thimau ehangach o fewn y sefydliad.

Cytunodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod y sefydliad yn annog y staff i adrodd am ddigwyddiadau a bod y staff dan sylw yn cael eu trin yn deg. Cytunodd yr holl staff y cymerwyd camau i atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd eto a bod adborth o ddigwyddiadau a newidiadau a wnaed o ganlyniad yn cael eu rhannu.

#### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol**

Darparodd uwch aelodau o staff fanylion am nifer a chymysgedd sgiliau'r staff sy'n gweithio yn yr adran a chadarnhawyd bod hyn yn ddigonol i ddarparu'r gwasanaethau a ddarperir.

Cadarnhaodd uwch aelodau o staff fod radiolegwyr ar gael i roi cyngor 'y tu allan i oriau', ond dywedwyd wrthym nad oedd hyn wedi'i ffurfioli gan ddefnyddio rota dyletswydd ar alwad.

Roedd saith aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod digon o staff iddynt wneud eu gwaith yn iawn ac roedd un ymatebwr yn anghytuno.

Archwiliwyd y cofnodion hyfforddi, mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), ar gyfer dau aelod o staff sy'n gweithio yn yr adran. Roedd y rhain yn dangos bod staff wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w maes a bod eu cymhwysedd wedi'i asesu. Roedd eu hawlogaeth a chwmpas eu hymarfer yn glir o'r cofnodion.

Gwnaethom hefyd archwilio'r cofnodion hyfforddi, mewn perthynas â phynciau gorfodol eraill, ar gyfer y staff uchod a thri aelod o staff ychwanegol yn gweithio yn yr adran. Gwelsom gydymffurfedd da â hyfforddiant gorfodol.

Roedd system addas ar waith i nodi pryd yr oedd angen hyfforddiant gorfodol.

Roedd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi derbyn hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl yn yr adran. Roedd pawb yn cytuno bod yr hyfforddiant wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithlon a'u helpu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol a darparu profiad gwell i gleifion.

Cadarnhaodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi derbyn arfarniad o'u gwaith o fewn y 12 mis diwethaf. Pan nodwyd anghenion hyfforddi, dysgu neu ddatblygu, cadarnhaodd yr holl staff eu bod wedi cael cymorth gan eu rheolwr i roi sylw i hyn.

Cytunodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod y sefydliad yn annog gwaith tîm a'i fod yn gefnogol.

Cadarnhaodd saith o'r wyth aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am arferion anniogel ac y byddai'r sefydliad yn gweithredu ar y rhain.

Cytunodd yr holl staff y gellid dibynnu ar eu rheolwr llinell i'w helpu gyda thasg anodd ac y byddai'n rhoi adborth clir iddynt ar eu gwaith a gofyn eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith.

Roedd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr yn dda a bod uwch-reolwyr yn ymroddedig i ofal cleifion. Cytunodd saith aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod gan yr uwch-reolwyr bresenoldeb amlwg, gydag un ymatebwr yn anghytuno.

Pan ofynnwyd iddynt am iechyd a llesiant yn y gwaith, cytunodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod y sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol ar iechyd a llesiant.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn	-	-	-

# Atodiad B - Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Ysbyty Werndale

Dyddiadau'r arolygiad: 28 a 29 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes angen cynllun gwella ar unwaith yn dilyn yr arolygiad hwn	-	-	-	-

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Werndale

Dyddiadau'r arolygiad: 28 a 29 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodir yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon/Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am y camau a gymerwyd i ychwanegu at y gweithdrefnau canlynol mewn ymateb i ganfyddiadau AGIC o'r arolygiad.</p> <p>Gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â:</p>	<p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), Rheoliad 6</p> <p>(1)(a), 1(b)</p> <p>Atodlen 2</p>			
<ul style="list-style-type: none"> <li>darparu gwybodaeth ddigonol ynghylch y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dos o ymbelydredd o'r cysylltiad</li> </ul>		<p>Mae'r fersiwn ddiweddaraf o weithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr CHG-IMG-EP2I yn nodi'r wybodaeth i'w darparu. Bydd adran hefyd yn cael ei</p>	Arweinydd Delweddu	Hydref 2022



<p><b>i'r unigolyn a fydd yn destun y cysylltiad neu ei gynrychiolydd</b></p>		<p>hychwanegu at weithdrefn y cyflogwr hwn i nodi sut y caiff gwybodaeth ei darparu i gleifion â phroblemau cyfathrebu</p>		
<ul style="list-style-type: none"> <li><b>defnyddio ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig</b></li> </ul>		<p>Mae'r fersiwn diweddaraf o weithdrefn CHG-IMG-EP2F y cyflogwr yn amlinellu'r camau i'w cymryd gan Radiograffwyr os eir y tu hwnt i lefelau cyfeirio diagnostig yn gyson ar gyfer cleifion maint safonol. Byddai'r Rheolwr Gwasanaethau Clinigol (Delweddu) yn codi'r mater gyda'r arbenigwr ffiseg feddygol lleol a fyddai'n ymchwilio i'r achosion ac yn cymryd camau unioni priodol.</p>	<p>Arweinydd Delweddu</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li><b>cynnal a chofnodi gwerthusiad ar gyfer pob cysylltiad</b></li> </ul>		<p>Diweddarwyd gweithdrefn WER IMASOP18 y cyflogwr ym mis Mawrth 2022 ac mae'n amlinellu'r broses reoli ac uwchgyfeirio ar gyfer holl ganfyddiadau archwiliadau radiolegol, gan gynnwys</p>	<p>Arweinydd Delweddu</p>	<p>Cwblhawyd</p>

		<p>canfyddiadau annisgwyl.</p> <p>Rhoddwyd gweithdrefn y cyflogwr wedi'i diweddarau (CHG-IMG-EP2J) ar waith ym mis Mehefin 2022. O dan weithdrefn y cyflogwr hwn, bydd delweddau adrodd yn cael eu huwchgyfeirio'n awtomatig at radiolegydd os oes amheuaeth o batholeg nodedig arall.</p>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• y rhaglen sicrhau ansawdd o ran gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig</li> </ul>		<p>Y pwyllgor cyfrifol o fewn Circle Health Group ar gyfer gweithdrefnau'r cyflogwr yw'r Pwyllgor Delweddu a Diagnosteg.</p> <p>Cynhelir adolygiad rheolaidd o fewn y dyddiad adolygu a drefnwyd ar gyfer pob gweithdrefn y cyflogwr gan Arweinydd Delweddu CHG ar y cyd â'r grŵp cynghori ar ddiogelwch ymbelydredd ac arbenigwr ffiseg feddygol corfforaethol. Yna caiff</p>	Arweinydd Delweddu	Cwblhawyd

		<p>gweithdrefn y cyflogwr ei chadarnhau gan y pwyllgor delweddu a diagnosteg a'i dosbarthu i bob rheolwr gwasanaethau clinigol (delweddu) i'w rhaeadru.</p> <p>Gellir codi unrhyw ddiwygiadau ad hoc gyda'r pwyllgor delweddu a diagnosteg sy'n cyfarfod bob chwarter.</p> <p>Bydd gweithdrefn y cyflogwr (CHG-IMG-EP2D) yn cael ei diweddarau i egluro'r broses hon.</p>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>rhaglenni feddygol</li> </ul>	ymchwil	<p>Bydd dyfrnod yn cael ei ychwanegu at CHG-IMG-EP2M i nodi'n glir nad yw hwn yn cael ei ddefnyddio yn Werndale gan nad oes unrhyw waith ymchwil yn cael ei wneud ar y safle.</p>	Arweinydd Delweddu	Cwblhawyd
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am y camau a gymerwyd i ychwanegu at y</p>	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad	<p>Bydd y Weithdrefn Weithredu Safonol (WERIMAsop20 - Gofalwyr a chysurwyr mewn delweddu) yn cael ei hadolygu i</p>	Arweinydd Delweddu	Cwblhawyd

<p>canllawiau awdurdodi mewn perthynas â sefydlu cyfyngiadau dos a chanllawiau ar gysylltiad gofalwyr a chysurwyr mewn ymateb i ganfyddiadau AGIC o'r arolygiad.</p>	<p>Meddygol), Rheoliad 11  (3)(b)</p>	<p>ddileu cynnwys sydd bellach yn rhan o weithdrefn ddiwygiedig y cyflogwr "EP2N - Gweithdrefn i sefydlu cyfyngiadau dogn priodol a chanllawiau ar gyfer cysylltiad gofalwyr a chysurwyr" gan gynnwys cyfeiriad at sefydlu cyfyngiadau dos i ofalwyr a chysurwyr ar gyfer archwiliadau radiolegol diagnostig safonol. Prif amcan y ddogfen datganiad o ddiben ddiwygiedig wedyn fydd gweithredu fel 'Canllawiau Awdurdodi' ar gyfer gofalwyr a chysurwyr yn Ysbyty Werndale.</p> <p>Bydd diwygiad yn cael ei wneud i "EP2N - Gweithdrefn i sefydlu cyfyngiadau dogn priodol a chanllawiau ar gyfer cysylltiad gofalwyr a chysurwyr" yn adran 1.2 a fydd yn cael ei adolygu i nodi; "rhaid i ymarferydd rheoliadau ymbelydredd ìoneiddio (cysylltiad meddygol) priodol gyfiawnhau'r cysylltiad â'r gofalwyr a'r cysurwyr. Bydd yr ymarferydd/ymarferwyr rheoliadau ymbelydredd</p>		
--	---	---	--	--

		<p>ioneiddio (cysylltiad meddygol) sy'n gyfrifol am y broses hon gyda gofalwyr a chysurwyr yn cael ei ddiffinio'n glir yn EP2B lle mae'r holl ymarferwyr rheoliadau ymbelydredd ioneiddio (cysylltiad meddygol) sydd â hawl wedi'u rhestru ar gyfer Ysbyty Werndale yn Nhabl 3.1 'Ymarferwyr â Hawl.'</p>		
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gadarnhau bod atgyfeirwyr â hawl yn gallu cael mynediad at y canllawiau atgyfeirio sefydledig.</p>	<p>Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol), Rheoliad 6 (5)(a)</p>	<p>Mae meddygon ymgynghorol â hawl ymarfer yn Werndale yn cael mynediad at ganllawiau atgyfeirio sefydledig ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cadarnhau bod gan holl ymarferwyr y GIG fynediad at iRefer drwy GIG Cymru sy'n cynnwys atgyfeirwyr meddygon teulu.</p> <p>Mae gan y ddau atgyfeiriwr preifat fynediad at iRefer.</p>	Arweinydd Delweddu	Cwblhawyd
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a</p>	<p>Rheoliadau Ymbelydredd</p>	<p>Bydd hawl gan bob ymgynghorydd orthopedig.</p>	Arweinydd delweddu	Cwblhawyd

gymerwyd i hysbysu llawfeddygon orthopedig am yr holl rolau deiliad dyletswydd y gallant eu cyflawni.	Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol), Rheoliad 6  (1)(a), 1(b)  Atodlen 2			
Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wneud staff yn ymwybodol o radiolegwyr ar alwad a all roi cyngor 'y tu allan i oriau'	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 20	Bydd gwasanaeth radiolegydd ar alwad yn cael ei sefydlu gyda Medica sy'n darparu gwasanaeth radiolegydd ymgynghorol 24/7.	Arweinydd delweddu	Hydref 2022

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd o'r gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** Jacqueline Jones  
**Swydd:** Cyfarwyddwr Gweithredol  
**Dyddiad:** 23/09/2022